OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 566

# Rheoliadau Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cywiro, Tir Comin Heb ei Gofrestru neu Dir Comin a Gam-gofrestrwyd) (Cymru) 2017

## RHAN 2

Ceisiadau a chynigion i ddiwygio'r Cofrestrau

**Dyletswydd yr awdurdod cofrestru i roi cyhoeddusrwydd i gynnig**

**11.**—(1) Rhaid i awdurdod cofrestru sydd wedi llunio datganiad o gynnig yn unol â rheoliad 7(1), cyn cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r cynnig, gydymffurfio â pharagraffau (2) i (5).

(2) Rhaid i'r awdurdod cofrestru gyhoeddi ar ei wefan hysbysiad o'r cynnig.

(3) Os y cynnig yw cofrestru neu ddatgofrestru unrhyw dir yn dir comin neu'n faes tref neu bentref, rhaid i'r awdurdod cofrestru arddangos hysbysiad o'r cynnig am ddim llai na 42 o ddiwrnodau wrth neu gerllaw o leiaf un fynedfa amlwg (neu, os nad oes mannau o'r fath, wrth neu gerllaw o leiaf un man amlwg ar y ffin) i'r tir y mae'r cynnig yn ymwneud ag ef.

(4) Rhaid i'r awdurdod cofrestru gyflwyno hysbysiad o'r cynnig i'r personau a ganlyn—

(a) yn ddarostyngedig i baragraff (7), perchennog unrhyw dir sy'n ffurfio'r uned gofrestr gyfan neu unrhyw ran ohoni y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(b) unrhyw berson sydd wedi gwneud datganiad, a gofnodwyd yn briodol yn y gofrestr, o hawlogaeth i hawl comin dros unrhyw dir sy'n ffurfio'r uned gofrestr gyfan neu unrhyw ran ohoni y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(c) unrhyw gyngor tiroedd comin a sefydlir ar gyfer tir sy'n cynnwys y tir y mae'r cynnig yn ymwneud ag ef;

(d) yn ddarostyngedig i baragraff (8), unrhyw berchennog hawl comin mewn gros sy'n arferadwy dros unrhyw dir sy'n ffurfio'r uned gofrestr gyfan neu unrhyw ran ohoni y mae'r cynnig yn ymwneud â hi; ac

(e) pob awdurdod lleol arall yn yr ardal honno.

(5) Rhaid i'r awdurdod cofrestru hefyd gyflwyno hysbysiad o'r cynnig drwy e-bost i unrhyw berson arall sydd wedi gofyn yn flaenorol i gael gwybod am yr holl gynigion, ac sydd wedi rhoi cyfeiriad e-bost i'r awdurdod cofrestru at y diben hwnnw.

(6) Pan fo hysbysiad sy'n cael ei arddangos o dan baragraff (3), heb unrhyw fai ar yr awdurdod cofrestru nac unrhyw fwriad ganddo, yn cael ei dynnu ymaith, ei guddio neu ei ddifwyno cyn i'r cyfnod o 42 o ddiwrnodau y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw fynd heibio, mae'r awdurdod i'w drin fel pe bai wedi cydymffurfio â gofynion y paragraff hwnnw.

(7) Nid yw'r gofyniad ym mharagraff (4)(a) yn gymwys os nad yw'n rhesymol ymarferol nodi pwy yw'r person hwnnw.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

(8) Caiff yr awdurdod cofrestru, mewn perthynas ag unrhyw gynnig, benderfynu nad yw paragraff (4)(d) i fod yn gymwys, os yw'n ystyried bod y personau sydd wedi eu cofrestru fel perchnogion hawliau comin mewn gros mor niferus fel na fyddai'n rhesymol ymarferol iddo gyflwyno hysbysiad o'r cynnig i bob un ohonynt.